# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2016-2017

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **24 Mai 2017**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Paulette Smith | Adran Etholiadol: | Clydach |

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Cynhaliais gymorthfeydd ar 3ydd dydd Sadwrn y mis yn Llyfrgell Clydach.

Cysylltais â'r adrannau perthnasol er mwyn cynnal ymholiadau ar ran preswylwyr ynghylch problemau a chwynion y ward, e.e. baw ci, sbwriel, ymddygiad gwrthgymdeithasol etc.

Cwrddais â phreswylwyr, swyddogion y cyngor, Aelodau'r Cabinet a'r heddlu lleol mewn perthynas â phroblemau'r ward.

Cyd-gysylltu ag ysgolion lleol o ran materion parcio

**Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr is-adran etholiadol.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Y Cyngor | 13 | / | 16 | 81.25 % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet – Datblygu | 6 | / | 13 | 46.15 % |
| Pwyllgor Cynllunio | 7 | / | 12 | 58.33 % |
| Ymddiriedolwyr | 1 | / | 3 | 33.33 % |
| **Cyffredinol** | **27** | **/** | **44** | **61.36 %** |
| | | | | |
| **Cyfarfodydd Craffu:** | | | | |
| Gwasanaethau I Oedolion | 7 | / | 13 | 53.85 % |
| Barod yw Plant i Ddechrau'r Ysgol | 4 | / | 8 | 50.00 % |
| **Cyffredinol** | **11** | **/** | **21** | **52.38 %** |

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Hyrwyddwr Gofalwyr y Cyngor, wedi gweithio gyda swyddogion a gofalwyr

1 o 12 aelod y Pwyllgor Cynllunio.

Rwy'n llywodraethwr yn Ysgol Graigfelen ac Ysgol Gatholig San Joseff.

Wedi cynrychioli'r Panel Heddlu a Throseddu ym Mhanel Craffu Perfformiad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Cynhaliais gyfarfodydd rheolaidd ag aelodau a swyddogion y Cabinet ynghylch materion y ward.

Roeddwn yn bresennol mewn digwyddiadau a chyfarfodydd yn fy rôl fel Hyrwyddwr Gofalwyr. Yn y digwyddiadau hynny, cwrddais â gofalwyr, plant, pobl ifanc ac oedolion o bob oedran.

Gweithiais gydag Aelod y Cynulliad dros Benrhyn Gŵyr ac AS.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

*Mae'r adran hon yn cynnwys yr wybodaeth neu'r sgiliau arbennig rydych yn eu cyfrannu i'ch rôl fel cynghorydd. Er enghraifft, efallai'ch bod yn gynlluniwr arbenigol neu efallai bod gennych brofiad penodol o un agwedd ar weithgareddau'r cyngor. Nodwch a oes unrhyw beth arbennig rydych yn ei gyfrannu i'r rôl neu a oes unrhyw hyfforddiant arbennig rydych wedi'i gael sy'n eich helpu yn eich rôl.*

19/05/2017 - Gwneud Penderfyniadau Da, Tuedd, Penderfynu Ymlaen Llaw a Rheolau Cyfiawnder Naturiol

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Defnyddiais fy lwfans Cyllideb Gymunedol Cynghorydd ar gyfer mentrau amrywiol yn y ward, gan gynnwys blodau mewn lleoliadau amrywiol.
Adferais y goleuadau stryd ar Heol Ynysymond yn y Glais.
Talais am gyfarpar newydd ar gyfer parc y Glais.
Trefnais fod y llinellau ar y cwrt tenis yn cael eu hailbaentio.
Cefnogais grwpiau elusennol lleol yn y ward.
Cyfrannais at brosiectau iard yr ysgol er lles y plant.
Roeddwn yn bresennol mewn digwyddiadau amrywiol yn y ward.

Llywydd y Clwb Ifanc am Byth.

Mae fy rhifau ffôn cartref a symudol ar gael i'm hetholwyr gysylltu â mi. Byddaf yn parhau i gynnal fy nghymorthfeydd. Bydd Rebecca Evans, AC dros Benrhyn Gŵyr, weithiau yn bresennol.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

## Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2016-2017

| |
|---|
| |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | |